

Rhuddlan Mewn Heddwch a Rhyfel 1911-1922



Casglwyd gan aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Rhuddlan



Supported by

The National Lottery[®]
through the Heritage Lottery Fund

Cefnogwyd gan

Y Loteri Genedlaethol
trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Defnyddiwyd arian a godwyd drwy'r Loteri Genedlaethol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri [HLF] gyda'r bwriad i wneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth, pobl a chymunedau ar draws y Deyrnas Unedig a chynorthwyo i adeiladu economi dreftadaeth hydwythol.

Buddsoddwn ymhob rhan o'r dreftadaeth amrywiol, o amgueddfeydd, parciau a lleoedd hanesyddol i archeoleg, amgylchfyd naturiol a thraddodiadau diwylliadol. Cefnogodd HLF bron i 36,000 cynllun gyda mwy na £5.9bn ar draws y Deyrnas Unedig.

www.hlf.org.uk

Gwasg Helygain Ltd, Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 info@gwasg.com www.gwasg.com



Cynnwys

1	Cyflwyniad a Chydnabyddiaeth	4
2	Achos a hynt y Rhyfel	5
3	Cyn y Rhyfel	7
4	Llongau, Sielau a Siopau	11
5	Ffowndri Rhuddlan	14
6	Iechyd a Lles	16
7	Ffermio, Bwyd a Bywyd Gwledig	18
8	Rhan y Merched	20
9	Dyddiau Ysgol	23
10	Tân ac Ager	27
11	Eglwys a Chapeli	30
12	Castell Bodelwyddan a Gwersyll Cinmel	33
13	Trosedd a Chosb	35
14	Dyddiau wedi'r rhyfel	37
15	Y Rhai a fu Farw	42
16	Adnoddau a Ffynonellau	47

Cyflwyniad

Yn y can mlynedd sydd wedi mynd heibio mae llawer wedi'i ysgrifennu am y Rhyfel Byd 1af, sef y Rhyfel Mawr a barhaodd o 1914-1918. Mae gweithredoedd y fyddin, y llynges a'r llu awyr wedi cael eu disgrifio yn drylwyr gan haneswyr milwrol ac mae esbonwyr gwleidyddol a chymdeithasol wedi dadansoddi'r effeithiau ar fywyd cenedlaethol Prydain.

Ond faint o wybodaeth sydd gennym am y digwyddiadau yn ein cymuned leol a'i amgylchfyd? Sut oedd ansawdd bywyd cyn y rhyfel a pha newidiadau ddigwyddodd i'r rhai a adawyd ar ôl - y rhieni, gwragedd a phlant, y bobol busnes a'r masnachwyr?

Sut oedd hyn yn effeithio argaeledd bwyd ac ar amaethyddiaeth?

A newidiodd y rhyfel fywyd yr ysgolion a rhan yr eglwysi a'r capeli?

Sut atebodd y merched i ymdrech y rhyfel? Aeth llawer o'n dynion i ryfela ond faint gafodd eu hesgusodi oherwydd sgiliau hanfodol?

Yn ddiweddarach, pan ddarfu'r gwrthdaro erchyll, sut groeso a roddwyd i'r arwyr gan y gymuned? Sut goffawyd y rhai a roddodd yr aberth eithaf?

Mae Cofeb Rhyfel yn dangos enwau'r rhai a fu farw ond beth wyddom am eu bywydau? Maen nhw'n haeddu cael eu cofio fel aelodau o'n cymuned, nid fel enwau ar restr yn unig.

Y diffyg gwybodaeth yma a anogodd Cymdeithas Hanes Lleol Rhuddlan i ymchwilio'r pwnc a'r canlyniad yw'r llyfryn hwn sy'n dweud hanes difyr ein tref a'r ardal wledig cyn y rhyfel, effaith blynyddoedd y rhyfel a sut newidiodd bywyd am byth ar ôl cyfnod y rhyfel.

Cydnabyddiaeth

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod yn ddiolchgar iawn yr arweiniad, hyfforddiant a chymorth a ddarparwyd gan Archifyddion y Sir, staff Archifau Siroedd Dinbych a Fflint, Llyfrgell Y Rhyl a Llyfrgell Rhuddlan. Diolch hefyd i Reg Davies, Y Parch Brian Huw Jones o Gapel Ebeneser, Paul Hannon, Dewi a Siôn Hughes o Redstone Creative, Lady Langford, Ian Davidson a Bryn Roberts o Eglwys y Santes Fair a James Walker, Glenda Williams a Gwynfor Williams a gyflwynodd luniau neu wybodaeth.

Cyflawnwyd yr ymchwil gan aelodau'r Gymdeithas: Stephen a Catherine Cooper, y diweddar Mike Demack, Hilary Fleck, Chris Grier, Sarah a Tim Hodnett, Naomi Hughes, Bethan Jones, Barrie Mee, Isobel Rainford, Ted Reece, Jeanne a David Seager, David Thomas a Wenna Williams. Hefyd rydym yn ddiolchgar i Wasg Helygain am eu harweiniad a'r argraffu.

Diolch arbennig hefyd i Dr Gwilym Davies am ei gymorth gyda'r cyfieithiad i'r Gymraeg ac i Gronfa Treftadaeth y Loteri a gyflwynodd gyllid y cynllun. Heb garedigrwydd yr uchod ni fuasai cyhoeddi'r llyfryn hwn wedi bod yn bosibl.

Mae'r mwyafrif o'r lluniau a'r enghreifftiau yn y cyhoeddiad hwn yn berchen i'r Gymdeithas Hanes Lleol, ac yn cael eu cadw yn ei harchifdy, ar ôl cael eu cyflwyno'n garedig i'w copïo gan drigolion ac aelodau'r gymdeithas. Mae'r lluniau ychwanegol wedi'u rhoi gan rai a gydnabuwyd uchod. Mae'r posteri yn cael eu cyhoeddi yn rhad ac am ddim oddi ar wefan y Cynulliad, Cymru 1914. Gwnaed pob ymdrech i ddod o hyd i'r rhai sy'n dal yr hawlfraint ar rai eitemau gyda'u caniatâd i'w cyhoeddi a'u cofnodi gydag isdeitl. Bydd y golygyddion yn ddiolchgar petai unrhyw gofnod a adawyd allan yn cael ei ddatgelu iddynt.

Mae'r holl ddefnydd a gofnodwyd yn y llyfr yn gywir ar ddyddiad ei gyhoeddi ond gall mwy o wybodaeth gael ei ddatgelu oherwydd diddordeb a'r ymchwil a gynhyrchir fel canlyniad i'r canmlwyddiant cofio dechrau'r Rhyfel Byd 1af.

Achos a hynt y Rhyfel

Sut ddaeth tref fechan fel Rhuddlan, ffin brwydrau hynafol rhwng Eingl-Gymreig, i anfon ei meibion i ymladd i'r rhyfel mwyaf a welodd byd erioed?

Dechreuodd y rhyfel gyda Serbia, lle roedd rhan o'r wlad wedi ei meddiannu gan yr Ymerodraeth Otoman Twrcaidd nes iddynt orchfygu'r Twrciaid ac adennill eu tir yn ôl yn ystod y Rhyfeloedd Balcan(1912-1913).Yr Ymerodraeth Awstria-Hwngari oedd yn rheoli'r rhan arall ond roedd Serbia yn ysu am ei gael yn ôl. Cynghreiriad Serbia oedd Rwsia a phenderfynodd grŵp o'r enw rhyfeddol "The Black Hand" i gyflymu'r rhyfel gydag Awstria, gan ragweld y buasai Rwsia yn ymuno a threchu Awstria.

Y cynllun oedd llofruddio'r Archddug Franz Ferdinand, etifedd Awstria-Hwngari, yn ystod ei ymweliad a Sarajevo ar Ddydd Sul, Mehefin 28ain, 1914. Ni lwyddodd yr ymosodiad ar Neuadd y Dref ond pan benderfynodd yr Archddug a'i wraig Sophie i ymweld â'r rhai a anafwyd yn yr ysbty, fe ymosododd aelod arall o'r grŵp, Gavrilo Princip ar eu car a saethu'r ddau yn farw.

Byr oedd y ddadl rhwng Awstria a Serbia cyn i Awstria a Rwsia fynd i ryfel. Prif gynghreiriad Awstria oedd Yr Almaen, a oedd ei hun yn mynnu meddiannu tiroedd yn enwedig Affrica, er mwyn creu ymerodraeth i gymharu â Ffrainc a Phrydain. Yn genfigennus o nerth milwrol Prydain, yn enwedig ei llynges, changodd Yr Almaen ei byddin a'i llynges gan adeiladu llongau rhyfel. Cododd hyn ofn ar Brydain a chynyddodd ras arfau.

Roedd ei chenedlaetholdeb dwys a'i hagosrwydd tuag at Rwsia yn cael eu gweld fel bygythiad, felly fe arwyddodd Prydain a Ffrainc yr "Entente Cordiale" yn 1904 i gefnogi ei gilydd mewn rhyfel. Roedd Rwsia hefyd yn pryderu am uchelgais yr Almaen ac felly yn 1907 fe arwyddodd y "Triple Entente" gyda Ffrainc a Phrydain. Roedd y sefyllfa'n glir. Cyhoeddodd Awstria ryfel yn erbyn Serbia ar Orffennaf 28ain ac ymosododd ar Belgrade. Mynnodd yr Almaen bod Rwsia yn atal ei byddin. Ni wrandawodd Rwsia ac felly cyhoeddodd yr Almaen ryfel ar Rwsia ar Awst 1af. Galwodd Rwsia ar Ffrainc am gefnogaeth, felly cyhoeddodd yr Almaen ryfel ar Ffrainc ar Awst 3ydd. Roedd cytundeb Prydain gyda Ffrainc a Rwsia a'i gweledigaeth o Ewrop wedi ei drechu gan yr Almaen yn anodd ei hosgoi. Y cam olaf oedd i'r Almaen ymosod ar Wlad Belg, oedd ers tro byd yn wlad niwtral a'i amhleidioldeb wedi ei warantu gan y pwerau mawr. Anwybyddodd yr Almaen hyn. Yn yr 1890au roedd yr Almaen wedi paratoi cynllun Schlieffen (Y Cadfridog Cownt Alfred von Schlieffen, pennaeth Prif Staff Gadfridog yr Almaen) i ymosod ar Ffrainc gan symud trwy Wlad Belg ac amgylchu Paris o'r Gogledd a'r Gorllewin yn hytrach nag o'r Dwyrain lle roedd mwyafrif y fyddin Ffrengig mewn llinell o gaerau, sef y Llinell Maginot. Mynnodd Prydain fod yr Almaen yn tynnu'n ôl o Wlad Belg erbyn hanner nos Awst 4ydd. Ni ddigwyddodd hyn ac felly cyhoeddodd Brydain ryfel yn erbyn yr Almaen. Dechreuodd Prydain recriwtio, atgyfnerthu a lledaenu'i lluoedd arfog yn gyflym



Canfu'r Almaen ei hun yn ymladd rhyfel ar ddwy ochr - Ffrainc a Phrydain yn y Gorllewin a Rwsia yn y Dwyrain ac fel roedd gwledydd eraill yn ymuno yn y frwydr â'r cynghreiriau, hen a newydd, yn cael ei galw datblygodd llawer o leoliadau rhyfel newydd yn enwedig yn Yr Eidal, Dwyrain Canol, Y Balcanau, Twrci ag Affrica. Anfonodd yr Ymerodraeth Brydeinig filwyr o lawer gwlad i'r rhyfel - fel Canada, De Affrica, India, Awstralia a Seland Newydd i enwi dim ond rhai. Y cynghreiriau a sefydlwyd i osgoi rhyfel oedd yn awr yn ei droi yn wir ryfel byd.

Digwyddodd y frwydr gyntaf a oedd yn cynnwys milwyr Prydeinig yn Mons. Yma fe wrthdarodd y Llu Alldeithiol Prydeinig (LLAP) gyda'r Fyddin Almaeneg Cyntaf, a bu dau o'n milwyr lleol, Capten Geoffrey Rowley Conwy o'r Loyal Lancashire Regiment a Griff Evans o'r Bataliwn 1af, Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, yn ymladd yma. Er eu bod yn llai niferus llwyddodd y milwyr i atal symudiad yr Almaenwyr am ddau ddiwrnod ond bu rhaid cilio rhag cael eu hamgylchu ar ôl i'r Ffrancwyr symud yn ôl. Yna fe wynebodd y LLAP y gelyn yn Le Cateau a'u dal yn ôl i alluogi'r Cynghreiriaid i ailsefydlu ac i ymladd Brwydr Marne, rhyw 30 milltir o Baris, rhag bod Paris yn syrthio i law'r gelyn. Roedd y freuddwyd o ddiwedd rhyfel erbyn y Nadolig wedi diflannu. Ciliodd yr Almaenwyr tuag at yr afon Aisne gan ddechrau tyllu ffosydd yn union fel gwnaeth y Ffrancwyr. Dyma ddechrau ras tyllu ffosydd o arfordir Gwlad Belg tuag at ffin y Swistir. Roedd amddiffynfa'r Almaenwyr yn adnabyddus fel y llinell Hindenburg. Yr hyn oll yn sicrhau rhyfel statig a barhaodd dros bedair blynedd hir a gostiodd tua miliwn o fywydau ar y ddwy ochor, gan gynnwys y rhai a fu farw ar y môr ac mewn tiroedd tu draw i Ewrop.

Dinistriodd y rhyfel nifer o wledydd llewyrchus. Mae'n eironig mai yn agos i Mons, lle taniwyd ergyd gyntaf y rhyfel, y taniwyd yr ergyd olaf. Bu saith gŵr o Ruddlan yn y Llynges Frenhinol gyda'r gweddill o 216 yn ymladd mewn sawl catrawd yn y Fyddin Brydeinig. Nid yn unig yn Ffrainc a gwlad Belg y buont yn ymladd ond ymhob brwydr fawr.